

7. Dod o hyd i arian a'i gael

7.6.2 Codi arian - cymynroddion

Diffiniad

At ddiben y ddalen wybodaeth hon, caiff cymynrodd ei diffinio fel defnyddio unrhyw dechneg codi arian, boed hynny trwy elusen neu unrhyw asiantaeth allanol ar ei rhan, gyda'r diben o sicrhau rhodd o arian neu eiddo gan unigolyn yn eu hewyllys.

Mae pedwar prif fath o gymynrodd:

- Penodol – eitemau personol neu o'r cartref.
- Ariannol – rhoddion mewn arian.
- Gweddilliol – cyfran o weddill yr arian ar ôl didynnu treth, dyledion, costau a chymynroddion ariannol neu benodol blaenorol.
- Refersiynol neu fuddiant am oes – yn berthnasol pan fo eiddo wedi'i adael i unigolyn am oes ac yn mynd i elusen pan fo'r person hwnnw'n marw.

Mae llawer o fudiadau elusennol yn gofyn i'w cefnogwyr ystyried gadael cymynrodd. Gall hyn fod ar ffurf llythyr neu trwy hysbysebion yng nghylchlythyrau neu gylchgrawn yr elusen ei hun. Mae rhai elusennau'n cynnal gweithdai a digwyddiadau sydd wedi'u targedu'n benodol at godi ymwybyddiaeth am gymynroddion, mae eraill yn cynnig gwasanaethau ysgrifennu ewyllys yn rhad ac am ddim i ddarparu roddwyr.

Gall codi arian trwy gymynroddion fod yn eithriadol o fuddiol i'r rhai sy'n rhoi (cymynwyr) ac i'r mudiadau sy'n elwa yn y pen draw – maent werth oddeutu £1.3 biliwn yn flynyddol ar hyn o bryd. Rhaid ymdrin â hyn mewn modd cyfrifol fodd bynnag gyda chydabyddiaeth lwyr o gyfrinachedd yr unigolyn neu'r unigolion dan sylw.

Mae rhoi cymynrodd i fudiad elusennol yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n rhoi wneud ewyllys (64 y cant o'r boblogaeth) neu newid eu hewyllys bresennol (36 y cant). Mae ewyllys yn ddogfen gyfreithiol rymus a dylai adlewyrchu dymuniadau'r cymynwr yn gywir. Mae'r llysoedd yn meddu ar yr y grym i ddiddymu cymynroddion lle nad yw hyn wedi digwydd. Rhaid sicrhau bod cydbwysedd bob amser rhwng yr anghenion i fudiad er mwyn cynyddu ei incwm a rhyddid i'r cymynwr ddarparu ar gyfer eu buddiolwyr eraill.

Gweithdrefnau'r mudiad

Argymhellir y dylai mudiadau sy'n dymuno elwa yn sgil cymynroddion gynhyrchu datganiad ysgrifenedig ynghylch y gweithdrefnau ar gyfer delio gyda'r math hwn o godi

arian. Dylai'r gweithdrefnau hyn fod yn agored ac yn dryloyw ac ar gael yn rhwdd i unrhyw ddarpar gymynwr neu barti arall sydd â diddordeb. Os yw mudiad yn ceisio cymynroddion yn agored naill ai trwy ei staff codi arian ei hun, neu trwy gyfryngwyr trydydd parti eraill, yna dylai sicrhau bod pob cynrychiolydd yn derbyn hyfforddiant priodol. Mae'r Comisiwn Elusennau'n cynghori'n gryf iawn y dylai gweithwyr yr elusen fyth ymwneud yn uniongyrchol â'r broses o ddrafftio ewyllys unigolyn.

Dulliau cymell

Gall mudiadau ddefnyddio amryw o ddulliau i gymell pobl i roi cymynroddion. Dylid bod yn ofalus, fodd bynnag, pan fo mudiadau'n ystyried dulliau cydnabod fel rhoddion i unigolion sy'n addo cymynrodd, cydnabyddiaeth gyhoeddus yn ystod eu hoes neu'u coffáu yn dilyn eu marwolaeth.

Dylai unrhyw gymhelliant neu gydnabyddiaeth o'r fath fod o werth enwol a dylid gallu eu hamddiffyn yn gyhoeddus. Dylai elusennau fod yn ymwybodol y gallai'r cyhoedd yn gyffredinol a'r cyfryngau ystyried gweithgareddau o'r fath mewn modd anffafriol.

Rhoddion treth-effeithlon

Y trothwy ar hyn o bryd yw £325,000. Golyga hyn, i bob pwrpas, y bydd pob rhan o'r ystad sy'n weddill, ac yn rhagori ar y trothwy, yn cael ei drethu yn ôl 40% (cyfradd Treth Etifeddiant (IHT)).

Nid oes raid talu Treth Etifeddiant na threth ar enillion cyfalaf ar gymynroddion elusennol. Ffordd gyffredin o gofio am hoff elusen mewn ewyllys yw gadael cyfran yr ystad sy'n uwch na'r trothwy Treth Etifeddiant i elusen gan osgoi, wedyn, talu unrhyw Dreth Etifeddiant.

Darparu gwasanaethau cymynrodd

Gall mudiadau ddarparu nifer o wasanaethau i ddarpar gymynwyr gan gynnwys y costau sy'n gysylltiedig â chreu ewyllys. Pan fo elusen yn penderfynu darparu gwasanaethau o'r fath ar ei chost ei hunan, rhaid iddi fesur y manteision i'r elusen mewn perthynas â'r costau a delir. Caiff elusennau eu hannog i ddatblygu dull o fesur i'w ddefnyddio wrth farnu'r manteision a all eu cael.

Cyngor i gymynwyr

Dylai mudiadau sicrhau bod darpar gymynwyr yn chwilio am gyngor annibynnol, yn gyfreithiol ac yn ariannol, cyn ymrwymo arian. Os yw'r mudiadau'n dymuno gwneud cymynroddion heb gyfyngiad neu amodau yna dylid cyfathrebu hyn i'r cymynwr. Yn yr un modd, dylai mudiadau fod yn ymwybodol y gallai cymynroddion gyda chymalau cadw neu amodau fod â goblygiadau treth neu gyfreithiol yn y dyfodol ac y bydd y rheiny'n drech na manteision y rhodd wreiddiol. Os yw'r cymynwr yn dymuno i'w gymynrodd fynd tuag at agwedd benodol o waith yr elusen, dylid esbonio'n glir os

yw hynny naill ai'n afresymol neu'n anodd i'w weinyddu, a'i fod felly o werth cyfyngedig. Dylid esbonio hyn yn ofalus i'r cymynwr.

Os nad yw'n bosib bodloni dymuniadau cymynwr yn llawn, yna gallai fod yn bosibl i gymynwr noddï achos penodol trwy wasanaeth cymynroddion (gweler isod).

Mae ystod cyfan o opsiynau ar gael i gymynwr gan gynnwys cymynrodd ariannol (swm penodedig) a chymynrodd weddilliol (cyfran).

Os yw cymynwr yn dymuno gadael cymynrodd i fwy nag un mudiad, mae asiantaethau i'w cael sy'n cynnig gwasanaethau cymynroddion i alluogi cymynwyr i addasu'r rhestr o fudiadau sy'n derbyn cymynrodd a/neu swm unrhyw gymyroddeb heb orfod addasu eu hewylllys.

Gwybodaeth bellach

Mae modd cael arweiniad pellach ynghylch yr hyn a all fod yn faes codi arian anodd o'r mudiadau canlynol:

Charities Aid Foundation (CAF)

CAF Legacy Account,
Family Philanthropy Team, 25 Kings Hill Avenue, Kings Hill,
West Malling, Caint ME19 4TA
Ffôn: 01732 520 198
family@cafonline.org
www.cafonline.org/family

Y Comisiwn Elusennau

Blwch SP 1227, Lerpwl L69 3 UG
Ffôn: 0845 300 0218
www.charity-commission.gov.uk

Direct Marketing Association

DMA House, 70 Margaret Street, Llundain W1W 8SS
Ffôn: 020 7291 3300
Ffacs: 020 7323 4426
info@dma.org.uk
www.dma.org.uk

Sefydliad Codi Arian Cymru

14 – 16 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd,
Caerdydd, CF14 1DG
Ffôn: 02920 521 272
Ffacs: 02920 521 250
cymru@institute-of-fundraising.org.uk
www.institute-of-fundraising.org.uk

Cymdeithas y Gyfraith,

Tŵr y Brifddinas, Heol y Brodyr Llwydion, Caerdydd CF10 3AG

Ffôn: 029 20 645 254

Ffacs: 029 20 225 944

wales@lawsociety.org.uk

www.lawsociety.org.uk

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cyngor Trydydd Sector Caerdydd

Tŷ Baltic, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FH

Elusen Gofrestredig: 1068623

Ffôn: 029 2048 5722

enquiries@c3sc.org.uk

Ffacs: 029 2046 4196

www.c3sc.org.uk



Ffôn: 0300 111 0124
www.wcva.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddarau: 12/07/2016